# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
# Cytundeb Cynllun Toiledau Cymunedol

**TELERAU AC AMODAU**

Mae’r Cytundeb hwn rhwng:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Y Cyngor) a’r Darparwr Gwasanaeth (Enw’r busnes sy’n cymryd rhan)
________________________________________________________________

1. Bydd y Cynllun Toiledau Cymunedol (y Cynllun) yn gweithredu rhwng y Cyngor a’r Darparwr Gwasanaeth am gyfnod o 1 flwyddyn o ddyddiad y Cytundeb hwn, neu hyd nes y rhoddir 1 mis o rybudd gan y naill barti neu’r llall i’r Cytundeb hwn.

2. Bydd y Cytundeb hwn yn dechrau o _____________ (Dyddiad) a bydd yn dod i ben ar _____________ (Dyddiad)

3. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cytuno i ganiatáu'r cyhoedd i gael defnydd dirwystr o’r cyfleusterau toiledau a ddarperir ganddynt yn ystod oriau agor arferol y busnes yn (Enw/cyfeiriad llawn y sefydliad)
________________________________________________________________
________________________________________________________________
________________________________________________________________

4. Mae’r Cyngor yn cytuno i dalu’r Darparwr Gwasanaeth ar gyfradd o £500.00 y flwyddyn.  Bydd y taliad yn cael ei wneud yn Pro Rata i’r Darparwr Gwasanaeth, gan ddibynnu ar ddyddiad dechrau neu ddyddiad terfynu’r Cynllun. Bydd y taliad yn cael ei wneud unwaith y flwyddyn ar ôl isafswm cyfnod o chwe mis.  Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i hawlio yn ôl unrhyw ordaliad a wnaed i’r Darparwr Gwasanaeth ac mae’n rhaid talu hwn o fewn 7 diwrnod gwaith.  Mae hyn yn cynnwys os yw’r Cytundeb wedi dod i ben ac nad yw bellach mewn grym, neu os yw rhybudd wedi’i roi gan y naill barti neu’r llall, yn terfynu’r Cytundeb hwn.

5. Mae’r Cyngor yn cytuno i gynnwys enw’r Darparwr Gwasanaeth, a lle bo’n briodol, manylion y lleoliad, mewn deunydd hyrwyddo sy’n ymwneud â’r Cynllun.  Bydd arwyddion y Cynllun Toiledau Cymunedol yn cael eu darparu gan y Cyngor y mae’n rhaid i’r Darparwr Gwasanaeth eu harddangos yn glir ac yn weledol a’u cynnal yn eu heiddo.

6. Mae’n rhaid i’r Darparwr Gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd a ddarperir gan y Cyngor yn dangos ei aelodaeth i’r Cynllun a’i osod mewn lleoliad gweledol yn ei eiddo.  Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i ofyn i’r Darparwr Gwasanaeth symud eu harwyddion i leoliad arall yn eu heiddo, pe bai’r Cyngor yn teimlo nad yw’r arwydd yn ddigon gweledol neu’n ddigon clir.

7. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cytuno i gadw’r cyfleusterau toiledau yn lân ac yn lanwaith bob amser a bydd yn sicrhau bod gan y toiledau ddigon o roliau toiled, sebon, biniau, cyfleusterau sychu dwylo ac unrhyw beth arall y byddai’n rhesymol i chi ei ddisgwyl mewn cyfleusterau toiledau.  Mae’n rhaid cynnal a chadw’r toiledau a’u monitro’n rheolaidd gan y Darparwr Gwasanaeth i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn lân i’w defnyddio gan y cyhoedd.

8. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cytuno i ganiatáu'r Cyngor i gynnal archwiliadau a monitro’r cyfleusterau toiledau sy’n hygyrch i’r cyhoedd drwy’r Cynllun hwn i sicrhau bod telerau’r Cytundeb hwn yn cael eu bodloni.  Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i gynnal archwiliadau ychwanegol.

9. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cytuno y gellir gwerthuso unrhyw wybodaeth a geir trwy gynnal archwiliadau neu fonitro’r cyfleusterau toiledau yn eiddo’r Darparwr Gwasanaeth i roi tystiolaeth o benderfyniadau’r cynllun toiledau cymunedol yn y dyfodol. Os penderfynir bod iechyd a diogelwch, glanweithdra a chyflwr cyffredinol y cyfleusterau toiledau yn annerbyniol, bydd y Cyngor yn cadw’r hawl i derfynu’r cytundeb hwn ar unwaith.

10. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cytuno i indemnio’r Cyngor yn erbyn yr holl neu unrhyw atebolrwydd am golled, niwed, hawliadau, ffioedd a chostau sy’n deillio o ddefnyddio’r toiledau sy’n hygyrch i’r cyhoedd drwy’r Cynllun Toiledau Cymunedol. O ganlyniad i gymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cymunedol ac ar gyfer cyfnod y Cytundeb, bydd y Darparwr Gwasanaeth yn gweithredu ac yn cynnal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i isafswm gwerth o £10,000,000.

11. Bydd y Darparwr Gwasanaeth yn rhoi copi diweddar o’u tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i’r Cyngor o fewn y 7 diwrnod gwaith cyntaf o ddechrau’r cynllun.

12. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cadw’r hawl mewn amgylchiadau eithriadol yn unig i wrthod mynediad i aelod o’r cyhoedd i’w heiddo a/neu i ddefnyddio’r cyfleusterau toiledau sy’n hygyrch i’r cyhoedd o dan y Cynllun Toiledau Cymunedol.

13. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cytuno i gydymffurfio â holl ddeddfwriaeth berthnasol y DU sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch ble y mae’n effeithio ar y toiledau sy’n hygyrch drwy’r Cynllun Toiledau Cymunedol.

14. Gellir terfynu’r Cytundeb hwn ar unwaith ac yn llwyr ar unrhyw achosion o dorri rheolau neu ddiffyg cydymffurfiaeth ar ran y Darparwr Gwasanaeth, ble y mae’r Cyngor wedi rhoi gwybod i’r Darparwr Gwasanaeth yn ysgrifenedig am yr achos o dorri rheolau neu ddiffyg cydymffurfiaeth, a ble y mae’r Darparwr Gwasanaeth wedi methu â chywiro’r materion a godwyd o fewn 14 diwrnod o gael ei hysbysu amdanynt.

15. Ni chaniateir i’r Darparwr Gwasanaeth neilltuo’r Cytundeb hwn i unrhyw barti heb 21 diwrnod o rybudd i Gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.

16. Mae’r Darparwr Gwasanaeth yn cytuno na fydd y Darparwr Gwasanaeth na’i weithwyr o dan unrhyw amgylchiadau yn cynnal ei hun neu eu hunain fel gweithiwr neu asiant i’r Cyngor. Neu, fel rhywun ag awdurdod i ymrwymo i unrhyw gytundeb neu mewn unrhyw ffordd arall rwymo neu ymrwymo’r Cyngor.

17. Gall y Cytundeb hwn rhwng y Cyngor a’r Darparwr Gwasanaeth gael ei derfynu gan y naill barti neu’r llall drwy roi o leiaf 1 mis o rybudd ysgrifenedig i’r parti arall.

18. Bydd peidio â rhoi gwybod am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sy’n ymwneud â’r Darparwr Gwasanaeth yn arwain at eu tynnu oddi ar y cynllun ar unwaith ac mae’n rhaid i unrhyw ordaliad a wnaed i’r Darparwr Gwasanaeth gael ei ad-dalu i’r Cyngor ar unwaith. (E.e. Newid i berchnogaeth y busnes, wedi cau oherwydd gwaith cynnal a chadw neu newidiadau yn yr oriau agor).

Llofnod: ________________________ (Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Dyddiad: ____________________

Llofnod: _______________________ (Ar ran y Busnes sy’n Cymryd Rhan)

Dyddiad: _______________________